



colegceredigion

YSGOLORIAETHAU LLYSGENNAD

2018/19

Ysgennad Myfyrwyr
Blwyddyn 1af
1st Year
Student Ambassador

Dyma gyfle newydd a chyffrous i ddatblygu eich sgiliau a dod yn rhan annatod o Goleg Ceredigion.

Mae Coleg Ceredigion yn falch iawn i gyflwyno ei Raglen Ysgoloriaeth Llysgennad ble byddwn yn cynnig 12 Ysgoloriaeth Llysgennad bob blwyddyn ar gyfer myfyrwyr llawn amser sydd wedi cofrestru ar gwrs Lefel 2 neu Lefel 3.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i ddatblygu eich sgiliau arwain a chyfathrebu. Caiff ymgeiswyr llwyddiannus eu hannog i adeiladu ar eu hyder trwy gyfrannu mewn modd cefnogol at amrywiaeth o ddigwyddiadau'r Coleg trwy gydol y flwyddyn Hydref 2018 - Awst 2019. Tra byddwch yn cefnogi bywyd y Coleg, gall y Coleg roi cyfle i chi gymryd rhan mewn rhaglen a fydd yn sicr o fantais i chi wrth i chi gyflwyno ceisiadau i fynd i Brifysgol a cheisiadau am swyddi.

Bydd Myfyrwyr Llysgennad yn derbyn dillad Llysgennad ynghyd â chymorth ariannol (£100 a delir mewn dau randaliad yn Hydref 2018 a Mawrth 2019). Gall hyn gyfrannu at gostau'r Coleg megis llyfrau, teithio, llety, cyfarpar ac ati.

Mae Myfyrwyr Llysgennad yn atebol i: Swyddogion Lles Myfyrwyr, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dilyniant Dysgwyr a Chynorthwydd Marchnata'r coleg.

Penodir myfyrwyr am hyd at flwyddyn sef Hydref 2018 i Awst 2019. Bydd gofyn i fyfyrwyr sydd â diddordeb

mewn ymgymryd â'r rôl gyflwyno cais byr ym mis Medi 2018 ac os ydynt yn llwyddiannus, mynd am gyfweliad / clyweliad byr ym mis Hydref 2018.

RÔLY LLYSGENNAD

- Hyrwyddo'r Coleg cyfan, yn fewnol ac yn allanol, tra'n hyrwyddo'r maes cwricwlwm astudio priodol hefyd yn ôl y gofyn
- Mae'n debygol y gofynnir i'r ymgeiswyr llwyddiannus helpu i gefnogi gyda chyflwyniadau hyrwyddol
- Bod ar gael ar gais y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dilyniant Dysgwyr, y Cynorthwydd Marchnata a Thiworiaid Cwrs i gynorthwyo gyda'r digwyddiadau canlynol:
 - Nosweithiau Agored
 - Nosweithiau Gwobrwyo
 - Diwrnodau Rhagflas (mewn ysgolion lleol a/neu yn y Coleg)
 - Croesawu gwsteion pwysig i Goleg Ceredigion

MEINI PRAWF DEWIS

- Natur gyfeillgar a chymwynasgar
- Sgiliau trefniadol da ac amseru da
- Byddai tystiolaeth o fod wedi cyfrannu at fywyd cymunedol yn yr ysgol neu tu allan iddi yn fanteisiol ond nid yn hanfodol
- Natur ddymunol, personoliaeth hoffus
- Gallu cyfathrebu'n rhwydd ac effeithiol
- Parodrwydd i ymgysylltu â staff y coleg, dysgwyr a'r cyhoedd.



I WNEUD CAIS

Dylid cyflwyno ceisiadau (atodiad e-bost neu ar bapur) i'r coleg cyn 4pm ar ddydd Gwener 28 Medi 2018 at sylw'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dilyniant Dysgwyr.

Y WEITHDREFN DDEWIS

Wrth ystyried ceisiadau, rhoddir ystyriaeth i'r holl feini prawf dewis perthnasol. Dewisir ar sail gwybodaeth a ddarperir ar ffurflen gais yr Ysgoloriaeth Llysgennad, a gwneir y penderfyniad terfynol mewn cyfweiliad / clyweliad gan Banel Dyfarnu Ysgoloriaethau Llysgennad ym mis Hydref 2018.

RHOI GWYBOD AM DDYFARNIADAU

Cysylltir ag ymgeiswyr drwy e-bost cyn gynted â phosibl ym mis Hydref ar ôl cwblhau'r holl gyfweiliadau / clyweliadau. Mae'r Panel Dyfarnu'n cadw'r hawl i newid unrhyw benderfyniad a wneir.

I GRYNHOI

- A oes gennych natur ddymunol, gwrtais, foesgar a chroesawgar?
- Ydych chi'n gallu gweithio'n hawdd o fewn tîm?
- A oes gennych chi sgiliau cyfathrebu da?

- Ydych chi'n frwdfrydig ac yn angerddol dros eich pynciau/maes galwedigaethol/coleg?
- A oes gennych chi'r hyder i ymgysylltu â darpar fyfyrwyr, rhieni, cyflogwyr, ymwelwyr pwysig?
- Fyddech chi'n fodlon cyfrannu at ddigwyddiadau'r Coleg megis diwrnodau agored, diwrnodau rhagflas, a digwyddiadau arbennig?

Os mai 'ie' yw'r ateb i'r cwestiynau hyn, cysylltwch â ni a chyflwynwch gais i ddod yn Fyfyriwr Llysgennad.

Ewch i siarad â'ch Tiwtor Cwrs, Mentoriaid Coleg, Rhieni/ Gwarcheidwaid, a fydd i gyd yn blês iawn i gynnig cyngor ac arweiniad i chi gyda'ch cais.

D.S: Darperir y Calendr Digwyddiadau dros dro ar gyfer 2018/2019 i'r holl ymgeiswyr cyn y cyfweiliad.

Cymerir gofal mawr i wneud yn siŵr bod pob Llysgennad ond yn cyfrannu'n rhannol at raglen ddigwyddiadau'r coleg/campws, gan sicrhau nad yw rôl y Llysgennad yn amharu ar raglenni astudio yn y Coleg.

